# Busnes Cymdeithasol Cymru

# Eich Pecyn Cymorth ar gyfer Twf

## Cefnogaeth arbenigol, wedi'i theilwra a'i ariannu'n llawn


Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cynyddu trosiant
# Cynyddu elw
# Arallgyfeirio
# Ehangu
# Cydweithredu
# Cydweithio
# Trawsnewid

Pa dwf bynnag yr hoffech ei weld, gall **Busnes Cymdeithasol Cymru** roi cymorth arbenigol ichi.

Rydym yn gweithredu ledled Cymru ar ran busnesau cymdeithasol – mentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, is-gwmnïau elusennol, busnesau sy'n eiddo i'w staff a chyrff cydfuddiannol.

Rydym wedi bod yn helpu mentrau cydweithredol a busnesau cymdeithasol ers 1982. Mae ein tîm o Gynghorwyr Busnes arbenigol yn cael eu cefnogi gan ymgynghorwyr arbenigol mewn meysydd megis Adnoddau Dynol, y gyfraith, cyllid a marchnata. Ac oherwydd bod Busnes Cymdeithasol Cymru yn cael ei ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru yn rhan o Busnes Cymru, mae'n wasanaeth sy'n rhad ac am **ddim**.

Eich **Pecyn Cymorth** ar gyfer Twf

Rydym yn cynnig

# pecyn o gefnogaeth sydd wedi'i theilwra'n llawn

i gyd-fynd ag anghenion eich sefydliad.

### Cynllunio Strategol
- Sesiynau llunio gweledigaeth, wedi'u hwyluso
- Gwerthuso opsiynau

### Cynllunio Busnes
- Datblygiadau ac adolygiadau cynllunio busnes

### Llywodraethu
- Adolygiadau llywodraethu
- Cyngor ar strwythur cyfreithiol gan gynnwys sefydlu is-gwmnïau masnachu
- Datblygu'r bwrdd

### Gwasanaethau Cyfrifydda
- Cyngor treth a TAW
- Prisio'r cwmni
- Dadansoddi ariannol fforensig

### Marchnata
- Cynllunio marchnata
- Brandio
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Strategaeth a hyfforddiant gwerthu

### Adnoddau Dynol
- Dadansoddi a datblygu polisïau a gweithdrefnau perthnasol
- Contractau cyflogaeth
- Arweiniad ar TUPE

### Archwiliadau Cymdeithasol
- Dadansoddi a datblygu modelau cynnal archwiliadau cymdeithasol

### Mentora Cyfoedion
- Cefnogaeth fentora arbenigol fesul sector

### Datblygu Cynaliadwy
- Cefnogaeth i ddatblygu neu wella strategaeth datblygu cynaliadwy

### Rheoli Ansawddt
- Cefnogaeth i ddatblygu a chyflwyno safonau ansawdd

Eich **Pecyn Cymorth** ar gyfer Twf

> “Fe wnaeth **Busnes Cymdeithasol Cymru** droi’r gwaith o ehangu a datblygu Partneriaeth Fern yn daith lwyddiannus a chadarnhaol! Mae’r berthynas broffesiynol, a chyfeillgar hefyd, a gawsom gyda’n Cynghorwyr Busnes wedi bod yn werth chweil ac rydym yn ffodus eu bod yn dal i’n cefnogi. Gydag ysgogiad, brwdfrydedd a’r penderfyniad i lwyddo, mae BCC wedi bod yn anhepgor i ni ar ein taith a hoffem ddiolch o waelod calon iddynt.”

**Michelle Coburn-Hughes**
*Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Busnes Partneriaeth Fern*


> “Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi bod yn eithriadol o gefnogol o ran galluogi i’m sefydliad gynyddu ein swyddogaethau busnes a sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol mewn lle gennym. Mae cael mynediad i gorff annibynnol y gallwn ei ddefnyddio fel cynghorydd a mentor wedi bod yn amhrisiadwy ar adegau ansicr.”

**Paul Whapham**
*Rheolwr Sefydliad, Y Gweilch yn y Gymuned*

> “Mae **Busnes Cymdeithasol Cymru** wedi rhoi anogaeth, cefnogaeth, cyngor a chymorth ymarferol i ni o’r cychwyn. Pan oeddem yn barod i ehangu ein gweithgareddau masnachu fe wnaethant ein helpu i wneud hynny. Mae’n braf gwybod eu bod yna ac y gallwn droi atynt pryd bynnag y bydd arnom eu hangen.”

**Alison Hill**
*Uwch-swyddog, Partneriaeth Parc Caia*

Ymhlith ein cleientiaid mae:



### Gogledd Cymru

- Antur Stiniog Cyf
- Antur Waunfawr Cyf
- Partneriaeth Parc Caia
- CAIS Social Enterprise
- Galeri Caernarfon
- Llandudno Football in the Community
- Tyddyn Môn
- Vi-ability
- Wrecsam AFC

### De-orllewin Cymru

- Barod
- Down to Earth
- iSmooth Cafe
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Y Gweilch yn y Gymuned
- Swansea Carers Centre
- YMCA Abertawe
- Xcel Bowl

### De-ddwyrain Cymru

- Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
- Age Connects Caerdydd a’r Fro
- Asiantaeth Cyflogaeth gyda Chefnogaeth Elite
- Emmaus De Cymru
- Busnes Partneriaeth Fern
- Mentrau Gofal
- Greenstream Flooring
- Green Willow Funerals
- Indycube CIC
- Too Good to Waste
- Torfaen Leisure Trust

Mae gwasanaeth **Busnes Cymdeithasol Cymru** yn cael ei ddarparu gan **Ganolfan Cydweithredol Cymru**, sef corff cenedlaethol Cymru ar gyfer mentrau cydweithredol a busnesau cymdeithasol. Mae gennym dros 30 mlynedd o brofiad o helpu busnesau cymdeithasol a chyrff cydweithredol mewn llawer o sectorau gan gynnwys hamdden, twristiaeth, addysg, ynni adnewyddadwy, manwerthu cymunedol a gofal cymdeithasol.

I ddarganfod mwy a thrafod sut gallwn eich helpu i gynyddu eich busnes cymdeithasol, gallwch ddefnyddio'r dulliau isod i gysylltu â ni:

Ffoniwch: **03000 6 03000** a gofyn am **Busnes Cymdeithasol Cymru**
Ebost: **sbwenquiries@wales.coop**
Ewch i: **businesswales.gov.wales/socialbusinesswales**

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.